OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2015 Rhif 306 (Cy. 35)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug) i Gyffordd 6 (Cyfnewidfa Gresffordd), Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *2 Chwefror 2015* |
| *Yn dod i rym* | *9 Chwefror 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A483) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar neu gerllaw'r ffordd.

Mae Gweinidogion Cymru, gan hynny, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 9 Chwefror 2015 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug) i Gyffordd 6 (Cyfnewidfa Gresffordd), Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2015.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n ysgogi'r Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 20:00 o'r gloch ar 9 Chwefror 2015 ac a ddaw i ben pan symudir ymaith yn barhaol yr arwyddion traffig dros dro;

ystyr “y darnau o’r gefnffordd” (“t*he lengths of the trunk road*”) yw:

i. y darn o brif gerbytffordd y gefnffordd tua’r gogledd ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam sy’n ymestyn o ddechrau’r slipffordd ymadael tua’r gogledd yng Nghyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug) hyd at ganolbwynt y drosbont ogleddol yng Nghyffordd 6 (Cyfnewidfa Gresffordd);

ii. y darn o brif gerbytffordd y gefnffordd tua’r de ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam sy’n ymestyn o ddechrau’r slipffordd ymadael tua’r de yng Nghyffordd 6 (Cyfnewidfa Gresffordd) hyd at ganolbwynt y danbont ddeheuol yng Nghyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug).

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd yn y darnau o’r gefnffordd.

**Cymhwyso**

**4.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ac eithrio ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dynodi bod y gwaharddiad y cyfeirir ato yn yr erthygl honno yn weithredol.

**Parhad y Gorchymyn hwn**

**5.** Y cyfnod hwyaf y caiff y Gorchymyn hwn barhau mewn grym fydd 12 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 2 Chwefror 2015

*R Morgan*
**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27: amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru.